



**ADRODDIAD GAN Y  
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE  
REPORT**

## **Rheoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006**

Mae'r Rheoliadau yma'n dirymu ac yn ail-wneud gyda diwygiadau Reoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2002. Maen nhw'n parhau i orfodi'r rhwymedigaethau o dan Reoliad EC 999/2001 sy'n ymwneud ag atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol.

### **Rheol Sefydlog 11.7**

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7(v):-

Rheoliad 1: Y bwriad yw y bydd y Rheoliadau yn gymwys mewn perthynas â Chymru; gan hynny, mae'r enw sydd wedi'i nodi yn Rheoliad 1 yn anghywir a dylai'r gair "(Cymru)" gael ei fewnosod rhwng "Trosglwyddadwy " a "2006" ac mae'r teitl Saesneg yn y llysof ond mae'r Cymraeg yn yr unigol. Hefyd, mae'r Pwyllgor wedi datgan ei bod yn well ganddo weld "title" wrth nodi sut y dylid cyfeirio at Reoliadau neu Orchmynion ac nid "cited".

Atodlen 2 i'r testun Saesneg: mae rhifau'r paragraff Cynnwys ar chwâl. Dylai'r cofnod sy'n dechrau â "Consignment and slaughter" gael ei rifo â "2" a dylai'r rhestr gael ei hail-rifo yn unol â hynny. Yn yr un

modd ym mharagraff Cynnwys Atodlen 4 i'r testun Cymraeg, dylai cofnod 2 gyfeirio at "Cyfyngu ar anifail y gwnaethpwyd hysbysiad yn ei gylch" a dylai'r rhestr gael ei hail-rifo yn unol â hynny.

Atodlen 5 paragraff 2(5): Yn y testun Cymraeg, dylai'r gair "gydag" ddod ar ôl "is-baragraff (1)".

Atodlen 5 paragraff 3: Mae'r paragraff yma'n cynnwys cyfeiriad at Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid 2005 ("Rheoliadau 2005"). I Loegr yn unig y mae Rheoliadau 2005 yn gymwys. Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yw'r Rheoliadau Cymreig priodol. Dylai'r cyfeiriad at Reoliadau 2005 ym mharagraffau 3(b) ac (ch) gael ei ddiwygio a dylai'r cyfeiriad at Reoliad 12(2) o Reoliadau 2005 gael ei ddiwygio i Reoliad 11 o Reoliadau 2003.

Atodlen 5 paragraff 12(2): mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "Atodiad Vli" lle dylai gyfeirio at "Atodiad VI".

Mae testun Saesneg y Rheoliadau'n cynnwys llawer o gyfeiriadau at "approvals, authorisations, licences and registrations". Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi bod cyfeiriadau Cymraeg cyfatebol yn y gorffennol wedi'u mynegi fel "cymeradwyo, awdurdodi, trwyddedu a chofrestru". Mae'r Rheoliadau yma wedi defnyddio "caniatâd" ac "awdurdodi". Bernir bod "caniatâd" yn cyfateb yn fwy priodol i 'allow' neu 'permit' ac y dylid diwygio'r Rheoliadau er mwyn defnyddio "awdurdod" yn gyson. Mae angen diwygio testun Cymraeg Rheoliadau 10(1) a (4), 11(a)(i) a (b), 12(1), a 13.

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7(vi):-

Mae paragraff 4 o Atodlen 2 yn darparu ei bod yn dramgwydd cigydd, i'w fwyta gan bobl, anifail buchol sy'n fwy na 30 mis oed oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo'r Dull Gofynnol o Weithredu (DGW). Mae testun Saesneg paragraff 4(3) yn awgrymu bod rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r DGW os yw wedi'i fodloni y cydymffurfir â holl ofynion Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau. Mae'r testun Cymraeg yn awgrymu bod rhaid cydymffurfio â'r DGW, Rheoliadau TSE y Gymuned a'r Rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau a'r paragraffau canlynol yn cynnwys iaith ryw-benodol ac maen nhw wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7(vii):-

Rheoliadau 18(1)(h) a 21(b);

Atodlen 5, paragraffau 4(c) a 9(2)(b); ac

Atodlen 6, paragraff 8(2).

Gall yr holl bwyntiau sydd wedi'u nodi o dan Reol Sefydlog 11.7 gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## **Sylwadau**

Mae pwyntiau fformadu y byddai'n addas eu cywiro wrth gyhoeddi'r rheoliadau wedi'u mynegi i'r cyfreithiwr a'u drafftiodd.

## **David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**28 Chwefror 2006**